CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 17eg Medi, 2024, 10.00 am

CYNGHORWYR YN BRESENNOL:	Cynghorydd Sirol Tudor Thomas (Cadeirydd) Cynghorydd Sirol Jayne McKenna (Is-Gadeirydd) Cynghorydd Sirol: Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards, Jane Lucas, Alistair Neill, Sue Riley, Dale Rooke, Jackie Strong, Armand Watts

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Linda O'Gorman	Prif Swyddog Trwyddedu
Julian Sanders	Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Simon Howarth

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant wedi eu derbyn.

2. **Cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio ar 9fed Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

3. **Datganiad o Bolisi Gamblo a Chynigion ar gyfer Casinos.**

Gwnaethom ystyried y dull i'w fabwysiadu gan Gyngor Sir Fynwy mewn perthynas â cheisiadau am safleoedd casino yn y Sir a'r 'Datganiad Drafft o Bolisi Hapchwarae 2025' arfaethedig cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

https://www.youtube.com/live/_JItSL8GE24?si=Ji66ZmeB-G--IRgJ&t=77

Rydym yn cytuno:

(i) cefnogi cadw'r penderfyniad presennol i beidio â rhoi trwyddedau casino yn Sir Fynwy cyn iddo gael ei ystyried yn y Cyngor Llawn.

(ii) cefnogi'r datganiad Polisi Hapchwarae diwygiedig arfaethedig ar gyfer y cyfnod 31ain Ionawr 2025 i 30 Ionawr 2028. Bydd y Polisi hwn yn cael ei ystyried yn y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2024.

4. **Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd.**

Gwnaethom wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes a ganlyn yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn

ymwneud â datgelu gwybodaeth esempt yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. **Ystyried a yw'r gyrrwr yn "Addas a Phriodol" i ddal Trwydded Gyrwyr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.**

Penderfynodd y Pwyllgor ohirio ystyried y mater tan Gyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio maes o law.

6. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Dydd Mawrth, 22ain Hydref, 2024 10.00 y.b.